# Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai:

# Canllaw Sut i

# Ddarparu Data Monitro 2023-24

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ........ 2

**2. Y gofynion adrodd** ........ 3

**3. Cofnodi Canlyniadau** ........ 4

***3.1 Cofnodi Prif Ganlyniadau*** ........ 4

***3.2 Cofnodi Canlyniadau Eilaidd*** ........ 7

**4. Cofnodi'r data ar y daenlen** ........ 9

**Atodiad 1 – Prif Ganlyniadau** ........ 19

**Atodiad 2 - Canlyniadau Eilaidd** ........ 23

# 1. Cyflwyniad

Pwrpas y Grant Cymorth Tai (GCT) yw atal digartrefedd a helpu pobl i gael y gallu, annibyniaeth, sgiliau a'r hyder i gael a/neu i gadw cartref sefydlog ac addas.

**Pwrpas Fframwaith Canlyniadau newydd yr GCT** yw bod yn gyfrwng i **ddangos y dystiolaeth o'r canlyniadau y dymunir i'r gwasanaethau cymorth a ariennir gan y grant eu darparu i'r unigolion sy'n derbyn cymorth.** Bwriedir i'r Fframwaith Canlyniadau gael ei ddefnyddio gan y canlynol:

- Gan ddarparwyr cymorth, i nodi'r canlyniadau i ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n derbyn cymorth trwy wasanaethau GCT dros gyfnod adrodd. Dylent gyfateb i'r trefniadau a'r dulliau monitro cynnydd a ddefnyddir gan y darparwyr eu hunain
- Gan Awdurdodau Lleol i'w ystyried wrth iddynt fonitro'r gwasanaethau a gomisiynir trwy'r GCT, ac wrth asesu anghenion a gwneud penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol
- Gan Lywodraeth Cymru, i fesur effeithiolrwydd cyffredinol yr GCT ledled Cymru

Mae Fframwaith Canlyniadau newydd yr GCT yn rhestru'r **Prif Ganlyniadau** a'r **Canlyniadau Eilaidd** ac yn dangos effaith y gwasanaethau cymorth a ariennir gan y grant. Ceir rhagor o fanylion yn **Adran 3.** Mae'r Fframwaith Canlyniadau newydd hwn yn cymryd lle'r Fframwaith Canlyniadau Cefnogi Pobl blaenorol.

Dylid darllen y **Canllaw** hwn ochr yn ochr â **Fframwaith Canlyniadau'r GCT** sydd i'w gael ar https://www.gov.wales/housing-support-grant-outcomes-framework. Mae'r ddogfen honno'n rhoi manylion pob un o'r Prif Ganlyniadau a'r Canlyniadau Eilaidd, gan gynnwys 'Dangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth' a'r mathau o brosiectau GCT sy'n berthnasol i bob canlyniad.  Maent i'w gweld hefyd yn **Atodiadau 1 a 2 y Canllaw hwn.**

Mae Fframwaith Canlyniadau'r GCT wedi'i gynhyrchu ar y cyd â Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fframwaith Canlyniadau'r GCT a sefydlwyd ddiwedd 2021. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr Cymorth Cymru, Llamau, The Wallich, Hafan Cymru ac wyth awdurdod lleol.

Cewch fanylion sut y cafodd Fframwaith Canlyniadau'r GCT eu datblygu ac adborth y digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd yn Hydref 2022 sydd wedi cyfrannu at Fframwaith Canlyniadau terfynol yr GCT yn https://www.gov.wales/housing-support-grant-outcomes-framework-feedback.

## 2. Y gofynion adrodd

Mae'r bennod isod yn esbonio pryd a sut i lenwi'r ffurflen data monitro Fframwaith Canlyniadau newydd yr GCT.

**Dyddiad casglu a dychwelyd data Awdurdodau Lleol**

| Cyfnod canlyniadau | Dyddiadau'r cyfnod | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data i Lywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfnod 1** | 1 Ebrill i 30 Medi | 30 Tachwedd 2023 |
| **Cyfnod 2** | 1 Hydref i 31 Mawrth | 31 Mai 2024 |

Dyma'r dyddiadau y bydd gofyn i awdurdodau lleol gasglu a dychwelyd data i Lywodraeth Cymru. Cyflwynwch eich data i **HousingSupportGrant@gov.wales** erbyn y dyddiadau a ddangosir uchod.

Bydd yr awdurdodau lleol yn trefnu â darparwyr gwasanaethau sut a phryd y bydd gofyn iddyn nhw gyflwyno data i'r awdurdodau lleol.

Disgwylir i'r awdurdod lleol gasglu a chyfuno'r holl ddalennau y bydd darparwyr yn nodi eu mewnbynnau arnynt a chyflwyno'r holl ddata mewn un ffurflen i Lywodraeth Cymru. Felly dim ond un brif ddalen a dalen grynodeb y bydd gofyn i awdurdodau lleol eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn cyfnod. Ni fydd angen cyflwyno'r dalennau y bydd y darparwyr wedi'u llenwi.

I wneud hyn, copïwch y data cryno fel *gwerthoedd* a'u pastio yn y celloedd priodol ar daenlen newydd cyn cael gwared ar y ddalen mewnbynnau. Bydd hynny'n osgoi drysu'r fformiwlâu. Gellir datgloi celloedd sydd wedi'u cloi trwy ddiffodd y tab 'gwarchodaeth' yn y gweithlyfr – nid oes angen cyfrinair.

**Archwiliadau**

Ni fydd angen i awdurdodau lleol gyflwyno tystysgrif archwilio canlyniadau ar gyfer 2023-24 ond bydd angen iddynt benderfynu eu hunain ar eu trefniadau archwilio yn unol â'u prosesau a'u gofynion eu hunain.

Byddwn yn edrych ar hyn eto yn y dyfodol agos unwaith y bydd Fframwaith Canlyniadau newydd yr GCT wedi ennill ei blwyf.

# 3. Cofnodi Canlyniadau

## *3.1 Cofnodi Prif Ganlyniadau*

Mae’r **Prif Ganlyniadau** yn **dangos prif bwrpas grant yr GCT**. Y nod yw iddynt gwmpasu’r holl fathau o wasanaethau a ddarperir drwy'r grant, o ychydig o ymgysylltu / ymgysylltiadau tymor byr; gwasanaethau galw heibio neu wasanaethau allgymorth; cael llety â chymorth tymor byr neu gartref sefydlog; neu wasanaethau cymorth yn eu cartref/llety eu hunain. Mae'r prif ganlyniadau wedi'u nodi isod**.**

| **Prif Ganlyniadau** |
|---|
| 1. Mae pobl wedi gallu ymgysylltu â gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai (cyngor, gwybodaeth a chymorth) ac maent yn fwy gwybodus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt a/neu’n gwybod ble i fynd am gymorth. |
| 2. Mae pobl wedi gallu cael mynediad at lety brys / dros dro neu lety â chymorth tymor byr |
| 3. Mae pobl yn gallu cael gafael a'i gynnal mewn cartref sefydlog* addas |
| 4. Mae pobl yn gallu rheoli eu llety/cartref presennol sy'n eu hatal rhag dod yn ddigartref neu rhag gorfod cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus mwy costus (e.e. gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol). |

*Mae’r ymadrodd ***cartref sefydlog*** *yn cyfeirio at lety yn y sectorau cymdeithasol a phreifat y disgwylir iddo bara o leiaf chwe mis ac a fydd o bosibl ar gael am ba faint bynnag o amser y bydd ei angen ar y* ddeiliaid contract.

Nodiad: Mae'r term 'contract meddiannaeth' wedi disodli'r term 'cytundeb tenantiaeth' a’r term ‘deiliad contract’ wedi disodli'r term ‘deiliad’ o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru[1]

Mae pob Prif Ganlyniad yn cyd-fynd â phob set o Ddangosyddion Defnyddwyr Gwasanaeth.

Mae **Atodiad 1** yn rhoi rhagor o fanylion am bob un o’r **Prif Ganlyniadau,** gan gynnwys **Dangosyddion Defnyddwyr Gwasanaeth** a’r **math o ymyriad/gweithgaredd/ gwasanaeth** sy’n gymwys i bob canlyniad. **Noder:** mae’r mathau o **ymyriadau/ gweithgareddau/gwasanaethau** a restrir yn enghreifftiau yn unig ac nid yw’n rhestr gyflawn. Gall gwasanaethau eraill hefyd fod yn ddilys os ydyn nhw’n berthnasol.

Wrth gofnodi’r Prif Ganlyniadau, bydd angen asesu pa ganlyniad sy’n gymwys. Dylai’r Prif Ganlyniad a gofnodir fod yn seiliedig ar y **canlyniad** i’r unigolyn adeg **y pwynt adrodd chwe mis** (neu ar ddyddiad pan gafodd cynnydd yr unigolyn ei adolygu ddiwethaf os oedd hynny cyn y cyfnod chwe mis). Er enghraifft:

*Enghraifft 1 – Os yw’r person adeg y pwynt adrodd chwe mis wedi symud o fod yn cysgu allan a derbyn allgymorth i lety â chymorth tymor byr a’i fod yn derbyn cymorth cysylltiedig â thai, yna cofnodir Prif Ganlyniad 2.*

*Enghraifft 2 - Os yw’r person adeg y pwynt adrodd chwe mis wedi symud o lety brys / dros dro i lety mwy sefydlog a’i fod yn derbyn cymorth cysylltiedig â thai, yna cofnodir Prif Ganlyniad 3.*

[1] Mae cyfraith tai yn newid: Rhentu Cartrefi Cymru | LLYW.CYMRU


*Enghraifft 3 – Os oedd y person adeg y pwynt adrodd chwe mis wedi bod yn derbyn cymorth i gael a chadw cartref/llety sefydlog ac iddo 'adael' cymorth wedi hynny gan i'r angen am gymorth gael ei ddiwallu ond iddo ddychwelyd yn yr un cyfnod i gael cymorth untro, yna cofnodir Prif Ganlyniad 3 ac 1.*

Disgwylir y bydd pob unigolyn sy'n derbyn cymorth GCT yn cyflawni **un Prif Ganlyniad Cynradd yn unig** fel arfer **bob cyfnod**. Fodd bynnag, gall unigolyn sicrhau hefyd Brif Ganlyniad 1 (cyngor, gwybodaeth a chymorth) yn ogystal ag un Prif Ganlyniad arall os yw wedi dychwelyd neu ei ail-gyflwyno ei hun ar ôl gadael gwasanaeth GCT i dderbyn cymorth/cyngor untro yn ystod yr un cyfnod adrodd. Dangosir hyn yn y **diagram ar Dudalen 5 isod**.

Mae gan bob Prif Ganlyniad ei 'Ddangosydd Defnyddiwr Gwasanaeth' cyfatebol. Bydd angen ateb 'ydw' neu 'nac ydw' ar y ffurflen gan ddibynnu pa rai sy'n gymwys (gweler **Adran 4**).

Bydd ond angen ichi ateb **'ydw' i un dangosydd defnyddiwr gwasanaeth i gyflawni Prif Ganlyniad.** Ni fydd angen bodloni'r holl Ddangosyddion.

**Darlun Canlyniadau Cynradd**



### *3.2 Cofnodi Canlyniadau Eilaidd*

Mae'r **canlyniadau eilaidd** yn ddewislen o **ganlyniadau wedi'u teilwra, a fydd yn dibynnu ar anghenion a chynlluniau cymorth yr unigolyn (lle bo hynny'n berthnasol). Mae'r rhain yn dangos effaith ehangach y Grant Cymorth Tai y tu hwnt i'r canlyniadau cynradd sy'n gysylltiedig â thai. Nid ydynt yn nodau y mae'n rhaid i bob unigolyn eu cyflawni, ac felly ni fydd pob canlyniad yn berthnasol i bob defnyddiwr gwasanaeth.**

Dylen nhw fod yn seiliedig ar sgwrs ddwyffordd â'r defnyddiwr gwasanaeth a byddan nhw'n oddrychol eu natur. Dim ond pan fydd cymorth perthnasol sydd ei angen ac wedi'i nodi y dylid adrodd ar y Canlyniad Eilaidd. Dylai'r Canlyniad Eilaidd a gyflawnir gyd-fynd yn glir â'r math o gymorth a roddir. Mae'r Canlyniadau Eilaidd wedi'u nodi isod.

| Canlyniadau Eilaidd |
|---|
| 1. Mae gan bobl berthynas gadarnhaol ac iach â phobl yn eu bywydau |
| 2. Mae pobl yn teimlo'n ddiogel |
| 3. Mae gan bobl annibyniaeth a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd |
| 4. Mae pobl yn ymwneud â rhywbeth sy'n ystyrlon iddynt |
| 5. Mae iechyd corfforol pobl yn dda |
| 6. Mae pobl yn rheoli effaith eu dibyniaeth |
| 7. Mae iechyd meddwl a lles pobl yn dda |

Mae pob Canlyniad Eilaidd yn cyd-fynd â phob set o Ddangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth.

Mae **Atodiad 2** yn rhoi rhagor o fanylion am bob un o'r **Canlyniadau Eilaidd,** gan gynnwys **Dangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth** a'r **math o ymyriad/ gweithgaredd/gwasanaeth** sy'n berthnasol i bob canlyniad. **Noder:** mae'r mathau o **ymyriadau/gweithgareddau/gwasanaethau** a restrir yn enghreifftiau yn unig ac nid yw'n rhestr gyflawn. Gall gwasanaethau eraill hefyd fod yn ddilys os ydyn nhw'n berthnasol.

#### *Graddio Canlyniadau Eilaidd*

I nodi profiad unigolyn wrth iddo gael cymorth, **dylid cofnodi Canlyniadau Eilaidd gan ddefnyddio graddfa** fel y dangosir isod. Mae'n raddfa syml lle gofynnir i unigolion ganolbwyntio ar y **disgrifiad** yn hytrach nag ar rif.

Os **nad** yw 'Dangosydd Defnyddiwr y Gwasanaeth' yn **berthnasol** i ddefnyddiwr y gwasanaeth o ran y cymorth sydd ei angen arno, dylid cofnodi gradd o **'0'.** Ar gyfer pob Canlyniad Eilaidd sydd yn berthnasol, nid oes angen i bob un o Ddangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth fod yn gymwys er mwyn i'r unigolyn allu sicrhau'r Prif Ganlyniad.

| Graddfa | Disgrifiad |
|---|---|
| 0 | **'Ddim yn berthnasol'** – nid yw dangosydd defnyddiwr y gwasanaeth yn berthnasol i'r unigolyn |
| 1 | **'Byth'** – nid yw byth yn digwydd |
| 2 | **'Yn anaml'** – ar ychydig iawn o achlysuron, bron byth |
| 3 | **'Ar adegau'** – weithiau, o bryd i'w gilydd |
| 4 | **'Yn aml'** – yn rheolaidd neu lawer o weithiau |
| 5 | **'Bron yr holl amser'** – yn gyson, bob dydd |

**Wrth gofnodi profiad unigolyn, rydyn ni'n eich cynghori i ofyn i ddefnyddwyr y gwasanaeth sut maen nhw wedi bod yn teimlo 'yn ddiweddar' yn hytrach na thros gyfnod penodol o amser.**

Rydym yn cydnabod y gallai'r radd ar gyfer unigolyn fod yn is na'r radd cynt a gofnodwyd ac rydym yn deall y bydd amrywiadau yn ystod y cyfnodau adrodd. Nid yw hyn yn adlewyrchiad o waith y darparwyr cymorth mewn unrhyw ffordd ac ni ddylid ei ystyried fel targed. Cydnabyddir hefyd efallai na fydd yn realistig i rai defnyddwyr gwasanaeth, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau unigol, gofnodi gradd o '4' neu '5' byth yn ystod y cyfnod cymorth. Yn hytrach, dylid edrych ar y radd fel ffordd syml o gofnodi unrhyw gynnydd, lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r tabl isod yn rhoi enghraifft o **un o'r canlyniadau eilaidd**, dangosyddion defnyddwyr y gwasanaeth a'r raddfa o 0 i 5. Byddai unigolyn yn cael ei arwain gan ei weithiwr cymorth drwy **ddisgrifiadau'r** raddfa ar gyfer pob un o ddangosyddion defnyddwyr y gwasanaeth

| **Canlyniad** | **Dangosydd Defnyddiwr y Gwasanaeth** | **Disgrifiadau'r raddfa** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **0 = Ddim yn berthnasol** | **1 = Byth** | **2 = Yn anaml** | **3 = Ar adegau** | **4 = Yn aml** | **5 = Drwy'r amser** |
| Mae gan bobl annibyniaeth a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd | Rwy'n manteisio'n llawn ar y cymorth | | | | ✓ | | |
| | Rwy'n teimlo bod fy mywyd pob dydd dan fy rheolaeth. | | | | | ✓ | |
| | Rwy'n gallu rheoli fy arian | | | ✓ | | | |
| | Mae gen i'r sgiliau ymarferol i fyw'n annibynnol | | | | ✓ | | |

## 4. Cofnodi'r data ar y daenlen

Gofalwch eich bod yn cofnodi'r data yn yr holl gelloedd priodol. Mae'r **Prif Ganlyniadau yn orfodol** ond dewislen o **ganlyniadau wedi'u teilwra** yw'r **Canlyniadau Eilaidd,** a fydd yn dibynnu ar anghenion a chynlluniau cymorth yr unigolyn. Felly, ni fydd angen cofnodi data ar gyfer rhai canlyniadau eilaidd. Bydd y cyfan yn dibynnu ar yr unigolyn. Ond os oes cymorth perthnasol sydd ei angen wedi'i nodi, dylid cofnodi canlyniad eilaidd.

Mae'r tabiau **gwyrdd** yn ddalenni crynodeb sy'n gwneud cyfrifiadau'n awtomatig ar sail y data fydd wedi'u bwydo i'r dalenni mewnbynnu sy'n ymddangos fel **tabiau glas.**

**Noder:** Mae rhai celloedd sydd wedi'u llenwi â chyfrifiadau awtomatig wedi'u cloi rhag i chi ddileu'r gwerthoedd awtomatig trwy ddamwain.

**Llenwi pob tab a diffiniadau perthnasol –**

| **Tab 'HAFAN/HOME': -** ***Ar gyfer awdurdodau lleol yn unig*** | |
|---|---|
| **Cyfnod dan sylw:** | Cadarnhewch ba gyfnod y mae'r data'n ymwneud ag ef e.e. naill ai Cyfnod 1 neu Gyfnod 2. |
| **Gwybodaeth cyswllt:** | Rhowch fanylion cyswllt y person y dylwn gysylltu ag ef os oes gennym gwestiynau am y data. |
| **Cyfanswm dyraniad yr GCT:** | Nodwch gyfanswm yr GCT sy'n cael ei ddyrannu i'ch awdurdod lleol chi. |
| **Datganiad** | Dylai'r datganiad gael ei wneud gan swyddog sydd â'r lefel briodol o awdurdod o fewn eich sefydliad.<br>Dylai llofnod y swyddog fod yn un electronig. Nid oes angen i chi anfon copi caled o'r llofnod. |

| **Tab 'Arweiniad / Guidance'** |
|---|
| Er gwybodaeth yn unig y mae'r tab hwn – nid oes angen ichi gofnodi unrhyw ddata. Diben y nodiadau yw'ch helpu i ddefnyddio a deall yr erfyn excel. Mae'r nodiadau'n esbonio'r data sydd angen eu cofnodi ar y daenlen. |

| Tab ‘Canlyniadau Cryno / Summary Outcomes’: | |
|---|---|
| Bydd y dudalen hon yn **cyfrif yn awtomatig** y rhifau fydd wedi’u cofnodi ar y tudalennau ‘Mewnbwn – Canlyniadau’. Nid oes gofyn ichi gofnodi unrhyw ddata ac o’r herwydd, mae’r celloedd wedi’u cloi. | |
| **Cell B4** | Yn cyfrif yn awtomatig faint o unigolion unigryw sy’n derbyn cymorth GCT sy’n arwain at gyflawni o leiaf un Prif Ganlyniad yn ystod y cyfnod. |
| **Cell B7** | Yn cyfrif yn awtomatig faint y bobl sy’n cyflawni Prif Ganlyniad 1. Bydd hyn yn cynnwys yr unigolion sydd wedi gadael gwasanaethau GCT ac wedi cyflawni naill ai PG2, PG3 neu PG4 ac sydd yna’n ‘dychwelyd’ yn ystod y cyfnod adrodd i gael cymorth ‘untro’ ac sydd wedi cyflawni PG1 hefyd. |
| **Celloedd B8 i B10** | Yn cyfrif yn awtomatig nifer y bobl sy’n cyflawni naill ai Prif Ganlyniadau 2, 3 neu 4. |
| **Cell B14** | Yn cyfrif yn awtomatig *Nifer yr unigolion sy’n cyflawni Prif Ganlyniad 1 yn unig ().* Mae’n dangos nifer yr unigolion sydd wedi sicrhau Prif Ganlyniad 1 yn unig a dim un o’r Prif Ganlyniadau eraill. |
| **Cell B15** | Yn dangos y gwahaniaeth rhwng B9 a B16 i gynrychioli’r bobl hynny sydd wedi cyflawni Prif Ganlyniad 1 yn ogystal ag ail Brif Ganlyniad (unigolion sydd wedi gadael gwasanaethau GCT (ar ôl cyflawni PG2, 3 neu 4 ac sy’n ‘dychwelyd’ am gymorth ‘untro’) yn ystod y cyfnod adrodd). |
| **Cell B16** | Yn cyfrif yn awtomatig nifer yr unigolion sydd mewn llety brys / dros dro tra’u bod yn derbyn cefnogaeth i’w helpu i chwilio am gartref mwy sefydlog/parhaol. |
| **Cell B17** | Yn cyfrif yn awtomatig nifer yr unigolion sydd mewn llety â chymorth tymor byr tra’u bod yn derbyn cefnogaeth i’w helpu i chwilio am gartref mwy sefydlog/parhaol. |
| **Prif Ganlyniadau (gan gynnwys achosion eithriadol i gofnodi mwy nag un Prif Ganlyniad)** | Disgwylir y bydd pob unigolyn sy'n derbyn cymorth GCT yn cyflawni **un Prif Ganlyniad Cynradd yn unig** fel arfer **bob cyfnod**. Fodd bynnag, gall unigolyn sicrhau hefyd Brif Ganlyniad 1 (cyngor, gwybodaeth a chymorth) yn ogystal ag un Prif Ganlyniad arall os yw wedi dychwelyd neu ei ail-gyflwyno ei hun ar ôl gadael gwasanaeth GCT i dderbyn cymorth/cyngor untro yn ystod yr un cyfnod adrodd. Mae’r **diagram ar Dudalen 5 yn dangos y Prif Ganlyniadau a sut y dylech eu cofnodi**. |

| | |
|---|---|
| | Fodd bynnag, ni ddylai unigolyn gael ei gofnodi fwy nag unwaith ar y daenlen (un rhes fesul unigolyn) yn ystod cyfnod adrodd. Felly os bydd yr un unigolyn yn dychwelyd i gael gwasanaethau cymorth tai **‘untro’** (Prif Ganlyniad 1) yn ystod y cyfnod adrodd a’i fod eisoes wedi’i gofnodi ar y daenlen am gyflawni Prif Ganlyniadau 2, 3 neu 4, dylech gofnodi hyn yn yr un cofnod ar yr un rhes.<br><br>Os bydd unigolyn yn ail-gyflwyno ei hun mewn cyfnod adrodd *newydd*, caiff hyn ei gofnodi ar res newydd ar y daenlen a’i gofnodi yno **unwaith** yn unig (un rhes fesul unigolyn) ond caiff gyflawni fwy nag un prif ganlyniad yn yr un rhes yn ystod y cyfnod adrodd hwnnw (yn unol â’r arweiniad yn 3.1 y canllaw hwn). |
| **Cyflawni canlyniad**: | Bydd ond angen ichi ateb **‘Ydw’ i un dangosydd defnyddiwr gwasanaeth i gyflawni prif ganlyniad.** Ni fydd pob dangosydd defnyddiwr gwasanaeth yn berthnasol.<br><br>Dylai’r prif ganlyniad a gofnodir fod yn seiliedig ar y canlyniad i’r unigolyn adeg y pwynt adrodd chwe mis (neu ar ddyddiad pan gafodd cynnydd yr unigolyn ei adolygu ddiwethaf os oedd hynny cyn y cyfnod chwe mis). |
| **Prif Ganlyniad 2** | Mae dau Ddangosydd Defnyddiwr Gwasanaeth ar gyfer Prif Ganlyniad 2 i wahaniaethu rhwng pobl sy’n derbyn cymorth tra’u bod mewn llety brys / dros dro **a’r rheini** sydd mewn llety â chymorth tymor byr. |
| **Diffiniad o Lety Brys / Dros dro** | Yn cynnwys unigolion sydd mewn llety brys / dros dro tra bod llety dilynol yn cael ei baratoi a chynllun tai’n cael ei drafod e.e. canolfannau asesu ‘triage’. |
| **Diffiniad o Lety â Chymorth tymor byr** | Yn cynnwys llety ynghyd â’r cymorth sy’n cael eu darparu i helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae gwasanaethau llety â chymorth tymor byr yn cefnogi cleientiaid i symud ymlaen i gartref sefydlog pan fydd yr angen am gymorth wedi’i ddiwallu. At ddiben y fframwaith hwn, mae llety â chymorth tymor byr yn cynnwys llety lloches. |
| **Canlyniadau Eilaidd** | Mae'r canlyniadau eilaidd yn ddewislen o ganlyniadau **wedi'u teilwra,** a fydd yn dibynnu ar anghenion a chynlluniau cymorth yr unigolyn (lle bo hynny'n berthnasol). Nid ydynt yn nodau y mae'n rhaid i bob unigolyn eu cyflawni, ac felly ni fydd pob canlyniad yn berthnasol. Dim ond pan fydd cymorth perthnasol sydd ei angen wedi'i nodi, y dylid adrodd ar y canlyniad eilaidd.<br><br>Ni fydd angen cofnodi canlyniad eilaidd ar gyfer unigolion sy’n derbyn cymorth tymor byr neu untro (pobl sy’n dychwelyd) ac sydd wedi cyflawni PG1 gan na fyddai ganddynt gynllun cymorth ac ni fyddai |

| | |
|---|---|
| | amser ganddynt i adolygu cynnydd na chyflawni canlyniad eilaidd. Ond lle bydd canlyniad eilaidd wedi'i gyflawni, yna dylid cofnodi hynny. |
| **Cyflawni mwy nag un Canlyniad Eilaidd** | Caiff unigolyn gyflawni mwy nag un canlyniad eilaidd yn ystod cyfnod. Fodd bynnag, dylid ond adrodd ar unigolyn unwaith o dan bob canlyniad yn ystod cyfnod adrodd, a chofnodi nifer o ganlyniadau eilaidd (os yn berthnasol). Ni ddylai fod mwy nag **un cofnod** ar y daenlen am unrhyw unigolyn (un rhes fesul unigolyn) er y gall gyflawni mwy nag un canlyniad eilaidd ar yr un rhes.<br><br>Os bydd unigolyn yn ail-gyflwyno ei hun mewn cyfnod adrodd *newydd*, byddai'n cael ei gofnodi ar res newydd ar y daenlen a'i gofnodi yno **unwaith** yn unig (un rhes fesul unigolyn) ond gall gyflawni mwy nag un canlyniad eilaidd yn yr un rhes. |
| **Canlyniad Eilaidd 2:** *'Dw i ddim yn cael effaith negyddol ar les emosiynol na chorfforol pobl eraill'* | **Dangosydd opsiynol yw hwn ac ni ddylid ei gofnodi oni bai ei fod yn berthnasol ac yn briodol.** Cydnabyddir y gallai'r dangosydd gael ei ddefnyddio ar gyfer unigolyn sydd er enghraifft wedi goroesi trais yn y cartref sydd am ddefnyddio gwasanaethau VAWDASV.  Dylai gweithwyr cymorth felly ddefnyddio'u barn broffesiynol wrth benderfynu a ddylid cofnodi'r dangosydd hwn. |
| **Tab 'Rhesymau Cryno dros adael/Summary reasons for leaving'.** Bydd y dudalen hon yn **cyfrif yn awtomatig** y rhifau sydd wedi'u cofnodi ar y tudalennau 'Mewnbwn – Canlyniadau'. Nid oes gofyn i chi gofnodi unrhyw ddata ac o'r herwydd, mae'r celloedd wedi'u cloi. | |
| **Prif reswm dros adael** | Mae hwn yn dangos yr unigolion sydd wedi gadael gwasanaethau GCT yn ystod y cyfnod.  Caiff nifer y rhai sydd wedi gadael wrth bob 'Prif reswm dros adael' ei **gyfrif yn awtomatig.** Caiff *"nifer y gadaelwyr (dim yn cynnwys trosglwyddiadau i asiantaeth GCT arall)"* ei gyfrif yn awtomatig hefyd.<br><br>Dylai darparwyr cymorth ddewis y categori sydd fwyaf perthnasol i'r unigolyn dan sylw o'r rhestr o resymau a ddarperir isod: |
| **Mae anghenion cymorth cysylltiedig â thai wedi'u diwallu** | Dylai hyn gynnwys yr unigolion hynny mae eu hanghenion wedi'u diwallu yn unol â'r cynllun cymorth ac nad oes angen cymorth yr GCT arnyn nhw mwyach. Mae'n cynnwys unrhyw reswm sy'n nodi bod eu hanghenion wedi'u bodloni (e.e. iechyd meddwl wedi sefydlogi, yn gallu rheoli arian/dyled ac nid yw'r categori 'Arall' yn berthnasol iddyn nhw.) |

| | |
|---|---|
| **Symud i mewn i lety cynaliadwy (ac nid oes angen cymorth arnynt mwyach)** | Bod yr unigolyn wedi symud i lety sefydlog |
| **Diffyg ymgysylltu â chefnogaeth** | Dylai hyn gynnwys unigolion nad ydyn nhw’n manteisio’n llawn ar y gefnogaeth neu lle nad yw’r darparwr yn gallu cysylltu â’r unigolyn. (Noder y dylai darparwyr cymorth bob amser ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a darparu nifer o gyfleoedd i berson ymgysylltu â gwasanaeth y GCT) |
| **Nid oes angen cymorth mwyach** | Yn cynnwys yr unigolion hynny nad ydyn nhw wedi cwblhau eu cynllun cymorth ond o’u gwirfodd nad oes angen/eisiau’r cymorth arnynt e.e. wedi symud yn ôl at y teulu. |
| **Symud o’r ardal** | Dylai hyn gynnwys yr unigolion sydd wedi symud o’r ardal ac sydd ddim mwyach yn derbyn GCT gan y darparwr/Awdurdod Lleol. |
| **Mynd i garchar/sefydliad troseddwyr ifanc** | Hunanesboniadol |
| **Symud i wasanaeth gofal neu iechyd mwy hirdymor (e.e. cartref gofal/gofal yn y cartref/ysbyty/hosbis)** | Dylai hyn gynnwys unigolion sydd wedi symud i dderbyn gwasanaethau gofal neu iechyd tymor hir ac nad ydynt yn derbyn cymorth cysylltiedig â thai mwyach gan wasanaethau GCT. |
| **Symud i fyw â chymorth, gofal ychwanegol neu dai cysgodol (ac nid oes angen cymorth cysylltiedig â thai mwyach)** | Dylai hyn gynnwys unigolion sydd wedi symud i fyw â chymorth, gofal ychwanegol neu gartref cysgodol ac nad oes angen cymorth cysylltiedig â thai arnyn nhw mwyach gan wasanaethau CGT. |
| **Derbyn gwasanaethau iechyd arbenigol (e.e. Uned Iechyd Meddwl/Uned Detox)** | Dylai hyn gynnwys unigolion sy’n derbyn gwasanaethau iechyd arbenigol (e.e. Uned Iechyd Meddwl/Uned Detox) ac nad ydynt yn derbyn cymorth cysylltiedig â thai mwyach gan wasanaethau GCT. |

| | |
|---|---|
| **Bu farw** | Hunanesboniadol |
| **Wedi trosglwyddo i asiantaeth GCT arall (ond eisoes yn derbyn cymorth cysylltiedig â thai)** | Dylid cynnwys yn unig unigolion sydd wedi symud o un darparwr gwasanaethau GCT i un arall yn ystod y cyfnod ond sy'n dal i dderbyn cymorth GCT. Er enghraifft, os yw unigolyn wedi cael ei symud o allgymorth (darparwr 1) i lety â chymorth tymor byr ac yn dal i dderbyn cymorth cysylltiedig â thai (darparwr 2). |
| **N/A (dim yn berthnasol i wasanaethau untro)** | Dylai hyn gynnwys yn unig unigolion sydd wedi derbyn cymorth tymor byr/untro trwy wasanaethau galw heibio/allgymorth yn ystod y dydd ac ati. |
| **Arall** | Dylid dewis yr opsiwn hwn dim ond os nad yw unrhyw gategori arall yn cyfleu'r rheswm. |
| **Tab 'Statws Digartrefedd Cryno/Summary Homelessness Status' tab –** Bydd y dudalen hon yn **cyfrif yn awtomatig** y rhifau sydd wedi'u cofnodi ar y tudalennau 'Mewnbwn – Canlyniadau'. Nid oes gofyn i chi gofnodi unrhyw ddata ac o'r herwydd, mae'r celloedd wedi'u cloi. | |
| **Statws digartrefedd ar fynediad i gefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r GCT** | Bydd hyn yn **cyfrif yn awtomatig** statws digartrefedd pob unigolyn sy'n derbyn cymorth, pan ymunodd â chynllun cymorth. |
| **Statws digartrefedd ar adael cefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r GCT** | Bydd hyn yn **cyfrif yn awtomatig** statws digartrefedd pob unigolyn a wnaeth ymadael â chynllun cymorth yn ystod y cyfnod. |
| **Tab 'Mewnbwn – Canlyniadau / Input – Outcomes'** | |
| **Y darparwr fydd yn llenwi'r dudalen hon.** | |

| | |
|---|---|
| **‘Darparwr’ (colofn B)** | Yn y fan hon, dylai’r darparwr nodi enw ei sefydliad |
| **‘Rhyw’ (colofn E)** | Cwymplen gyda’r dewisiadau canlynol:<br>- M Gwrywaidd<br>- F Benywaidd<br>- NB Anneuaidd<br>- T Trawsryweddol<br>- I Rhyngrywiol<br>- P Well gen i beidio â dweud |
| **‘Rhif Cyfeirio Defnyddiwr Gwasanaeth’ (colofn F)** | Yn cael ei **gynhyrchu’n awtomatig** trwy gofnodi data yng ngholofnau C, D ac E. |
| **‘Awdurdod Lleol’ (colofn G)** | Cwymplen o’r holl awdurdodau lleol. |
| **‘Math o brosiect GCT’ (colofn H)** | Cwymplen o’r mathau o brosiectau GCT:<br>- Llety â Chymorth tymor byr<br>- Cefnogaeth tenantiaeth arnofiol mewn cartref ei hun<br>- Gwasanaethau Gofal Ychwanegol<br>- Llochesau<br>- Gwasanaethau Allgymorth Dyfal/Cymorth Lle Bo’r Angen<br>- Gwasanaethau Cyngor Galw Heibio yn ystod y dydd<br>- Llety Brys / Dros dro<br>- Cynllun Mynediad i’r Sector Rhent Cyhoeddus<br>- Llety â Chymorth Hirdymor / Parhaol<br>- Tai yn Gyntaf<br>- Prosiectau Eraill ar gyfer Atal Digartrefedd |
| **‘Statws digartrefedd ar fynediad i gefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r GCT’ (colofn L)** | Cwymplen. Pan fydd un wedi’i ddewis, caiff ei nodi’n awtomatig ar y tab ‘Statws Digartrefedd Cryno’. |

| | |
|---|---|
| **‘Statws digartrefedd ar adael cefnogaeth sy'n gysylltiedig â GCT’ (colofn M)** | Cwymplen. Pan fydd un wedi’i ddewis, caiff ei nodi’n awtomatig ar y tab ‘Statws Digartrefedd Cryno’. |
| **Prif Ganlyniadau 1- 4** | Mae cwymplen ar gyfer pob Prif Ganlyniad lle bydd gofyn ichi roi ateb ‘ydw/nac ydw’ wrth bob dangosydd defnyddwyr gwasanaeth. Caiff y data a gofnodir o dan Brif Ganlyniadau ar y dudalen hon eu cofnodi’n awtomatig ar y dudalen ‘Canlyniadau Cryno’. Nid oes angen i chi ateb ‘Ydw’ o dan bob dangosydd defnyddiwr gwasanaeth i’r unigolyn gyflawni’r canlyniad. |
| **Canlyniadau Eilaidd Opsiynol** | Bydd y rhain a’u dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth, yn ymddangos gyda chwymplen o opsiynau 0 - 5. Darllenwch yr adran ar **raddio canlyniadau eilaidd** yn y ddogfen hon. Caiff y data a gofnodir o dan Ganlyniadau Eilaidd ar y dudalen hon eu cofnodi’n awtomatig ar y dudalen ‘Canlyniadau Cryno’. Dylid nodi ‘0’ am ganlyniadau nad ydynt yn berthnasol. |
| **‘Ydy’r cymorth wedi dod i ben?’ (colofn BV)** | Cwymplen gydag opsiwn ‘ydw/nac ydw’. Peidiwch â’i lenwi nes bod y cymorth wedi dod i ben. Caiff y data a gofnodir yn y golofn hon eu cofnodi’n awtomatig ar y dudalen ‘Rhesymau cryno dros adael’. |
| **‘Rheswm dros adael/dod â’r cymorth i ben’ (Colofn BW)** | Cwymplen gyda’r rhesymau dros adael ar ffurf opsiynau. Peidiwch â’i lenwi nes bod y cymorth wedi dod i ben. Caiff y data a gofnodir yn y golofn hon eu cofnodi’n awtomatig ar y dudalen ‘Rhesymau cryno dros adael’. |

| **Diffiniadau Statws Digartrefedd** |
|---|
| Mae person yn ddigartref pan na fydd ganddo lety neu pan nad yw ei ddaliadaeth yn ddiogel. Cysgu ar y stryd yw pegwn mwyaf gweladwy a difrifol sbectrwm digartrefedd, ond mae digartrefedd yn cynnwys bod heb lety, methu cael llety neu lle nad yw'n rhesymol parhau mewn llety. Mae hyn yn cynnwys pobl mewn tai gorlawn, sy’n mynd o soffa i soffa, yn dioddef camdriniaeth a llawer o sefyllfaoedd eraill. Mae person yn ddigartref hefyd os yw ei lety yn strwythur symudol ac nad oes unman i’w osod[2] (Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd 2019) |

[2] Strategaeth ar ddigartrefedd (llyw.cymru)

| | |
|---|---|
| **Yn ddigartref** | Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o unigolion o dan amrywiaeth o amgylchiadau, sy’n gymwys am GCT (gweler canllaw pwy sy’n gymwys am y GCT). Nid yw pobl sydd mewn llety dros dro yn perthyn i’r categori hwn. Dyma rai enghreifftiau o’r rhai y gellid barnu eu bod yn ddigartref:<br>- Y rhai sy’n byw o soffa i soffa<br>- Sy’n cysgu ar y stryd<br>- Sydd wedi’u troi allan (gan landlord neu deulu)<br>- Sydd wedi gadael y carchar neu’r lluoedd arfog ac unman i fynd<br>- Sy’n byw mewn llety sydd mewn cyflwr drwg neu orlawn neu sy’n dioddef trais yn y cartref. |
| **Bygythiad o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod ac angen cymorth i aros yn ei gartref ei hun** | Byddai hyn yn cynnwys hefyd y rheini sydd o dan fygythiad o fod yn ddigartref yn y 7 niwrnod nesaf a gallai gynnwys (ymhlith rhai eraill):<br>- Y rheini sydd mewn perygl o ddioddef trais yn y cartref<br>- Y rheini y bygythiwyd eu troi allan (gan landlord – trwy rybudd cyfreithiol – neu deulu).<br>Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys y rheini sydd ag angen help ar unwaith i aros yn eu cartref eu hunain / i gadw eu contract meddiannaeth. |
| **Ddim mewn bygythiad o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod** | Byddai hyn yn cynnwys y rheini sydd â tenantiaeth ansicr er enghraifft, pobl sy’n cael eu troi allan ond **nid** o fewn 56 diwrnod neu sydd ddim wedi bod trwy’r system ddigartrefedd eto. |
| **Angen cymorth i aros yn eu cartref eu hunain/llety â chymorth parhaol** | Mae hyn yn cynnwys (ymhlith rhai eraill):<br>- Y rheini sydd ag anawsterau dysgu/problemau iechyd meddwl/pobl hŷn/pobl sy’n camddefnyddio sylweddau<br>- Y rheini fyddai, o beidio â chael cymorth, mewn perygl o gael eu troi allan yn y dyfodol |

| | |
|---|---|
| | Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys y rheini fydd ag angen cymorth tymor hir arnynt i allu parhau i fyw’n annibynnol ac i osgoi mynd yn ddigartref neu orfod gofyn am wasanaethau cyhoeddus mwy costus (e.e. gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol). |
| **Mewn llety dros dro** | Yn cynnwys y rheini sydd mewn llety brys / dros dro neu lety â chymorth tymor byr, er enghraifft:<br>- Llety Brys / Dros dro e.e. Canolfannau Asesu ‘Triage’<br>- Llety â chymorth tymor byr, gan gynnwys llochesi |
| **Cadw Cartref Sefydlog yn Annibynnol (6 mis +)** | Bydd yr opsiwn hwn yn cynnwys pawb sydd, ar ddiwedd eu cyfnod o gymorth, mewn llety sy'n debygol o bara o leiaf 6 mis, ac a fyddai’n gallu cadw’r llety/ contract meddiannaeth heb gymorth.<br>Gall y llety hwn fod yn deulu/ffrindiau cyn belled â’i fod yn rhoi ymdeimlad o barhad (ei ystafell ei hun), yn y sector preifat neu’n gontract meddiannaeth rhent cymdeithasol.<br>Mae'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys y rhai nad oes angen cymorth arnynt mwyach i aros yn eu cartref/llety eu hunain ac nad ydynt bellach o dan fygythiad o fod yn ddigartref. |

# Atodiad 1 – Prif Ganlyniadau

## Prif Ganlyniad 1

Mae pobl wedi gallu ymgysylltu â gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai (cyngor, gwybodaeth a chymorth) ac maent yn fwy gwybodus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt a/neu wybod ble i fynd am gymorth

**Noder:** Mae'r canlyniad hwn yn berthnasol i ychydig/ymgysylltiadau tymor byr trwy gyngor, gwybodaeth a/neu wasanaethau cymorth, ac felly ni fyddai angen i gynllun/adolygiad cymorth fod ar waith; neu pan fo unigolyn wedi ail-gyflwyno/dychwelyd i dderbyn cymorth/cyngor untro ar ôl gadael gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai.

Fodd bynnag, gall hefyd gynnwys darparu cymorth lle bo'r angen/allgymorth i unigolion sy'n ddigartref (gweler y diffiniadau ar dudalen 16 o'r ddogfen ganllawiau), ac nid mewn Llety Dros Dro, i helpu cael mynediad i lety sefydlog (ac y gallai fod â chynllun cymorth ar waith).

**Dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth *(I gofnodi ymateb 'ydw' / 'nac ydw' yn erbyn pob dangosydd)***

- Rwyf wedi cael gwybod am fy hawliau o ran tai a'r opsiynau tai sydd ar gael i mi
- Rwyf wedi cael gwybod am y cymorth sy'n gysylltiedig â thai sydd ar gael i mi
- Rwyf wedi cael gwybod am y budd-daliadau/cymorth ariannol y mae gennyf hawl iddynt a sut i wneud cais amdanynt
- Rwy'n gwybod lle i fynd am gymorth os oes angen
- Rwyf wedi cael fy nghyfeirio at gymorth pellach/cefnogaeth bellach os oes angen
- Rwy'n derbyn cymorth sy'n gysylltiedig â thai er mwyn fy helpu i chwilio am gartref mwy parhaol/sefydlog.

**Mathau o brosiectau perthnasol y Grant Cymorth Tai**

- Gwasanaethau allgymorth dyfal/cymorth lle bo'r angen
- Gwasanaethau Galw Heibio yn ystod y Dydd
- Unrhyw wasanaeth sydd wedi darparu cymorth/cyngor untro i unigolyn sydd wedi ail-gyflwyno/dychwelyd ar ôl gadael gwasanaeth y Grant Cymorth Tai

**Gweithgareddau/ymyriadau'r Grant Cymorth Tai**

- Sefydlu a meithrin perthnasoedd ymddiriedus gyda phobl nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau
- Codi ymwybyddiaeth o opsiynau tai/hawliau o ran tai
- Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sy'n gysylltiedig â thai sydd ar gael a lle i fynd am gymorth
- Codi ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau/cymorth ariannol y gallai fod gan yr unigolyn hawl iddynt a sut i wneud cais drwy gynghori a chyfeirio at wasanaethau priodol
- Darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i unigolion sy'n ddigartref i helpu i gael mynediad i gartref/llety sefydlog
- Cyfeirio/atgyfeirio neu help i gael mynediad at wasanaethau priodol, er enghraifft:
  - Cyfeirio at opsiynau tai / gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol
  - Help/cyfeirio at ffynonellau/cyllid i gael gafael ar anghenion hanfodol (bwyd, dillad, dodrefn, offer hanfodol)
  - Help i gael mynediad / cofrestru gyda gofal iechyd (e.e. meddyg teulu, deintydd, gwasanaethau iechyd meddwl, bydwraig)
  - Help un mater (e.e. help gyda hawlio budd-daliadau, help i ddelio â llythyr / bil, help i sefydlu cyfleustodau mewn cartref newydd)

## Prif Ganlyniad 2

Mae pobl wedi gallu cael mynediad at lety brys / dros dro neu lety â chymorth tymor byr

**Noder:** Mae'r canlyniad hwn yn berthnasol i wasanaethau/ymgysylltiad lle mae angen cynllun/adolygiad cymorth

**Dangosydd defnyddwyr gwasanaeth (*I gofnodi ymateb 'ydw' / 'nac ydw' yn erbyn pob dangosydd)***

- Rwyf mewn llety brys / dros dro tra byddaf yn cael cymorth i'm helpu i chwilio am gartref mwy parhaol/sefydlog
- Rwyf mewn llety â chymorth tymor byr tra byddaf yn cael cymorth i'm helpu i chwilio am gartref mwy parhaol/sefydlog

**Mathau o brosiectau perthnasol y Grant Cymorth Tai**

- Llety Brys / dros dro
- Llety â Chymorth tymor byr (yn cynnwys Llochesi)

**Gweithgareddau/ymyriadau'r Grant Cymorth Tai**

- Codi ymwybyddiaeth o opsiynau tai/hawliau o ran tai
- Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael sy'n gysylltiedig â thai
- Darparu cymorth parhaus sy'n gysylltiedig â thai (gan gynnwys gweithgareddau/ymyriadau untro)
- Mynediad at lety brys / dros dro, a darparu cymorth i edrych am gartref mwy parhaol/sefydlog
- Cymorth i gael gafael ar lety â chymorth tymor byr a chynnal y llety hyd nes y caiff ateb mwy parhaol ei ddarganfod
- Cymorth i oroeswyr sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) gael gafael ar lety lloches/llety gwasgaredig a chymorth parhaus sy'n gysylltiedig â thai
- Cyfeirio a hwyluso mynediad at wasanaethau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol perthnasol i gefnogi iechyd a lles unigolyn.

## Prif Ganlyniad 3

Gall pobl gael gafael a'i gynnal mewn cartref sefydlog addas

**Noder:** Mae'r canlyniad hwn yn berthnasol i wasanaethau/ymgysylltiad lle mae angen cynllun/adolygiad cymorth

**Dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth *(I gofnodi ymateb 'ydw/oes' / 'nac ydw'/'nac oes' yn erbyn pob dangosydd)***

- Rwyf wedi llwyddo i symud o lety brys / dros dro neu lety â chymorth tymor byr i gartref sefydlog
- Mae gennyf lety sefydlog sy'n diwallu fy anghenion ac sy'n debygol o bara 6 mis neu fwy
- Mae gen i'r wybodaeth berthnasol, y gallu, y sgiliau a/neu'r hyder i allu cynnal/rheoli fy llety sefydlog.

**Mathau o brosiectau perthnasol y Grant Cymorth Tai**

- Cynllun Mynediad y sector rhentu preifat
- Tai yn Gyntaf
- Cymorth lle bo'r angen

**Gweithgareddau/ymyriadau'r Grant Cymorth Tai**

- Cymorth i gael gafael ar gontract meddiannaeth yn y sector rhentu preifat a'i gynnal (e.e. tystysgrif bond, cyfryngu Landlordiaid, cymorth sy'n gysylltiedig â thai)
- Cymorth i gael gafael ar Lety Tai yn Gyntaf
- Darparu cymorth parhaus sy'n gysylltiedig â thai
- Darparu cyngor a chymorth ynghylch cynnal contract meddiannaeth/rheoli llety gyda chymorth priodol fel yr amlinellir ym meini prawf y Grant Cymorth Tai
    - Codi ymwybyddiaeth o rwymedigaethau'r deiliad contract/hawliau'r deiliad contract/hawliau o ran tai er mwyn cynnal sefyllfa o ran tai
    - Galluogi a hwyluso mynediad at gyngor ar gyllid/dyledion a magu'r sgiliau i reoli eu harian yn y dyfodol
    - Galluogi a hwyluso'r defnyddiwr gwasanaeth i hawlio budd-daliadau lles/sicrhau'r incwm mwyaf posibl drwy gynghori a chyfeirio at wasanaethau priodol
    - Cyfeirio a hwyluso mynediad at wasanaethau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol perthnasol i gefnogi iechyd a lles unigolyn
    - Galluogi a hwyluso defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad at addysg, hyfforddiant neu waith neu weithgareddau ystyrlon
- Mynediad at wasanaethau cyfryngu (landlord a theulu)

Noder: Mae'r term 'contract meddiannaeth' wedi disodli'r term 'cytundeb tenantiaeth' a'r term 'deiliad contract' wedi disodli'r term 'deiliad' o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru[3]

[3] Mae cyfraith tai yn newid: Rhentu Cartrefi Cymru | LLYW.CYMRU

## Prif Ganlyniad 4

Gall pobl reoli eu llety/cartref presennol sy'n eu hatal rhag dod yn ddigartref neu rhag gorfod cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus mwy costus (e.e. gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol).

**Noder:** Mae'r canlyniad hwn yn berthnasol i wasanaethau/ymgysylltiad lle mae angen cynllun/adolygiad cymorth

**Dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth *(I gofnodi ymateb 'oes/ydw' / 'nac oes/nac ydw' yn erbyn pob dangosydd)***

- Rwy'n derbyn cymorth sy'n gysylltiedig â thai er mwyn fy helpu i reoli fy llety/cartref
- Mae gen i'r wybodaeth berthnasol, y gallu, y sgiliau a/neu'r hyder i allu rheoli fy llety/cartref.
- Rwy'n rheoli fy mywyd bob dydd gymaint ag y gallaf er mwyn gallu rheoli fy llety/cartref.

**Mathau o brosiectau perthnasol y Grant Cymorth Tai**

- Cymorth lle bo'r angen yn eu cartref eu hunain
- Llety â Chymorth Hirdymor / Parhaol
- Gwasanaethau Gofal Ychwanegol

**Gweithgareddau/ymyriadau'r Grant Cymorth Tai**

- Cyfeirio/hwyluso mynediad at wasanaethau priodol sy'n galluogi defnyddiwr gwasanaeth i feithrin y sgiliau, yr hyder a'r annibyniaeth i gynnal eu cartref (yn unol â meini prawf y Grant Cymorth Tai). Er enghraifft:
  - Codi ymwybyddiaeth o rwymedigaethau'r deiliad contract/hawliau'r deiliad contract/hawliau o ran tai er mwyn cynnal sefyllfa o ran tai
  - Galluogi a hwyluso mynediad at gyngor ar gyllid/dyledion a magu'r sgiliau i reoli eu harian yn y dyfodol
  - Galluogi a hwyluso'r defnyddiwr gwasanaeth i hawlio budd-daliadau lles/sicrhau'r incwm mwyaf posibl drwy gynghori a chyfeirio at wasanaethau priodol
  - Cyfeirio a hwyluso mynediad at wasanaethau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol perthnasol i gefnogi iechyd a lles unigolyn
  - Galluogi a hwyluso defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad at addysg, hyfforddiant neu waith neu weithgareddau ystyrlon
- Mynediad at wasanaethau cyfryngu (landlord a theulu)
- Prosiectau sy'n darparu cyfarpar gwella diogelwch er mwyn galluogi dioddefwyr cam-drin domestig i aros yn ddiogel yn eu cartref eu hunain
- Darparu larymau
- Cyfeirio at wasanaethau/cyllid mewn perthynas â threfnu gwaith atgyweirio neu welliannau i'w cartrefi, neu addasiadau, neu wasanaethau priodol eraill.
- Cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol

## Atodiad 2 - Canlyniadau Eilaidd

### Canlyniad Eilaidd 1

**Mae gan bobl berthynas gadarnhaol ac iach â phobl yn eu bywydau**

*Bydd cynnwys y canlyniad hwn yn dibynnu ar anghenion a chynllun cymorth yr unigolyn ei hun.*

**Dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth *(Os yw’n berthnasol - I gofnodi ymateb yn erbyn gan ddefnyddio’r disgrifiadau graddfa yn Adran 3)***

- Mae gen i berthynas gadarnhaol a/neu iach gyda fy nheulu a/neu fy mhlentyn/fy mhlant
- Mae gen i berthynas gadarnhaol a/neu iach gyda fy ffrindiau a/neu gymheiriaid
- Mae gen i berthynas gadarnhaol a/neu iach gyda’r bobl yr wyf yn byw gyda hwy
- Dydw i ddim yn teimlo'n ynysig
- Rwy’n teimlo cysylltiad â’m cymuned leol

**Mathau o ymyriadau/gweithgareddau/gwasanaethau**

- Mynediad at wasanaethau cyfryngu teuluol
- Galluogi a hwyluso cyswllt yr unigolyn â'i weithiwr cymorth/cymorth gan gymheiriaid.
- Galluogi a hwyluso unigolion i sefydlu cysylltiadau â gwasanaethau'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn eu cymunedau lleol i leddfu unigrwydd a sefydlu perthnasoedd ystyrlon
- Galluogi a hwyluso unigolion i sefydlu/ailsefydlu cysylltiadau priodol â theulu a ffrindiau
- Galluogi pobl i wella o berthnasoedd camdriniol neu dreisgar
- Cefnogi pobl i symud ymlaen o berthnasoedd negyddol

## Canlyniad Eilaidd 2

**Mae pobl yn teimlo'n ddiogel**

*Bydd cynnwys y canlyniad hwn yn dibynnu ar anghenion a chynllun cymorth yr unigolyn ei hun.*

**Noder:** Mae’r canlyniad eilaidd hwn yn cynnwys:

- Mae pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref/llety rhag niwed corfforol neu emosiynol
- Mae pobl yn cyfrannu at eu diogelwch a’u lles eu hunain

**Dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth (*Os yw’n berthnasol - I gofnodi ymateb yn erbyn gan ddefnyddio’r disgrifiadau graddfa yn Adran 3)***

- Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghartref/llety rhag unrhyw niwed corfforol
- Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghartref/llety rhag unrhyw niwed emosiynol

***Dangosydd dewisol dim ond os yw'n berthnasol ac yn briodol i’w gofnodi***

- Nid wyf yn effeithio’n negyddol ar les emosiynol na chorfforol eraill

**Mathau o ymyriadau/gweithgareddau/gwasanaethau**

- Mynediad at wasanaethau cyfryngu teuluol
- Prosiectau sy'n darparu cyfarpar gwella diogelwch neu gymorth arall i alluogi dioddefwyr cam-drin domestig i aros yn ddiogel yn eu cartref eu hunain
- Cefnogi pobl i ddianc neu osgoi mathau eraill o gam-drin, trais neu gamfanteisio
- Darparu larymau
- Cefnogi pobl i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cefnogi pobl i leihau neu osgoi aildroseddu

## Canlyniad Eilaidd 3

**Mae gan bobl annibyniaeth a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd**

*Bydd cynnwys y canlyniad hwn yn dibynnu ar anghenion a chynllun cymorth yr unigolyn ei hun.*

**Nodyn:** Mae'r canlyniad hwn yn cynnwys **annibyniaeth a rheolaeth ariannol**, ond mae hefyd yn cynnwys agweddau eraill ar fywydau pobl, lle bo hynny'n berthnasol.

**Dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth (*Os yw'n berthnasol - I gofnodi ymateb yn erbyn gan ddefnyddio'r disgrifiadau graddfa yn Adran 3)***

- Rwy'n ymgysylltu'n gadarnhaol â chymorth
- Rwy'n teimlo fy mod yn rheoli fy mywyd bob dydd
- Rwy'n gallu rheoli fy arian
- Mae gen i'r sgiliau ymarferol i fyw'n annibynnol

**Mathau o ymyriadau/gweithgareddau/gwasanaethau**

Galluogi a hwyluso mynediad at wasanaethau cynghori a meithrin y sgiliau i reoli eu harian a gallu cynnal eu llety yn y dyfodol a byw'n annibynnol:

- Galluogi a hwyluso'r unigolyn i gynnal ei sefyllfa o ran tai drwy ei gynorthwyo i wneud cynlluniau taliadau priodol neu daliadau i ddarparwyr gwasanaethau sy'n ymwneud â'u heiddo, e.e. cyfleustodau, landlordiaid ac atal colli eu cartref oherwydd dyled
- Galluogi a hwyluso'r defnyddiwr gwasanaeth i gyllidebu a meithrin y sgiliau i reoli eu cyllideb yn y dyfodol
- Cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau bywyd ymarferol, fel coginio, glanhau, golchi a thasgau cadw tŷ eraill
- Cefnogi pobl neu gyfeirio pobl at wasanaethau neu dechnolegau sy'n eu helpu i ddatblygu hyder, llythrennedd neu sgiliau cyfrifiadurol i'w helpu i reoli eu bywydau'n annibynnol
- Cyfeirio at wasanaethau priodol sy'n galluogi defnyddiwr gwasanaeth i gadw ei gartref (gyda disgwyliad na fydd angen y cyngor hwn ar y defnyddiwr gwasanaeth yn barhaus)
- Cyfeirio at wasanaethau priodol mewn perthynas â threfnu gwaith atgyweirio neu welliannau i'w cartrefi, neu addasiadau, neu wasanaethau priodol eraill

## Canlyniad Eilaidd 4

**Mae pobl yn ymwneud â rhywbeth sy’n ystyrlon iddynt**

*Bydd cynnwys y canlyniad hwn yn dibynnu ar anghenion a chynllun cymorth yr unigolyn ei hun.*

**Nodyn:** Mae’r canlyniad hwn yn adlewyrchu unrhyw weithgaredd y mae'r darparwr/gweithiwr cymorth wedi hwyluso'r unigolyn i gael mynediad ato fel rhan o'r gwaith o fynd i'r afael â'i anghenion cymorth o ran tai, ac, wedi hynny, sydd wedi’i alluogi i fod â'r gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a/neu'r hyder i gael gafael ar gartref/llety sefydlog ac addas a/neu ei gynnal.

**Dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth (*Os yw’n berthnasol - I gofnodi ymateb yn erbyn gan ddefnyddio’r disgrifiadau graddfa yn Adran 3)***

- Rwy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n ystyrlon i mi ac sydd wedi cyfrannu at fy lles e.e.

  - Addysg
  - Hyfforddiant
  - Cyfleoedd gwirfoddol
  - Cyflogaeth
  - Chwaraeon a hamdden
  - Diddordebau
  - Gweithgareddau eraill yn y gymuned
  - Gweithgareddau i ddifyrru

- Rwy'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi

Mae'r dangosydd defnyddiwr gwasanaeth hwn yn cyfeirio at weithgareddau sy'n cael canlyniad cadarnhaol ar les yr unigolyn.

**Mathau o ymyriadau/gweithgareddau/gwasanaethau**

Cyfeirio a hwyluso unigolion i gael mynediad at addysg, hyfforddiant, cyflogaeth neu waith gwirfoddol, neu weithgareddau yn eu cymuned. Dylai'r rhain fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar gryfderau, gan helpu i roi ymdeimlad o bwrpas i bobl a gwella eu lles.

## Canlyniad Eilaidd 5

**Mae iechyd corfforol pobl yn dda**

*Bydd cynnwys y canlyniad hwn yn dibynnu ar anghenion a chynllun cymorth yr unigolyn ei hun.*

**Dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth (*Os yw'n berthnasol - I gofnodi ymateb yn erbyn gan ddefnyddio'r disgrifiadau graddfa yn Adran 3)***

- Rwy'n teimlo bod fy iechyd corfforol yn dda
- Rwy'n gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy iechyd corfforol
- Rwyf wrthi'n ceisio rheoli neu wella fy iechyd corfforol

**Mathau o ymyriadau/gweithgareddau/gwasanaethau**

- Cyfeirio a hwyluso mynediad cychwynnol at wasanaethau iechyd (cyhoeddus) (ac unrhyw ailatgyfeiriad priodol yn ystod y cyfnod darparu cymorth), e.e. cofrestru gyda meddyg neu ddeintydd. (Nid yw cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn ymestyn i fynd gydag unigolion yn rheolaidd i apwyntiadau iechyd neu gwnsela)
- Cyfeirio a chefnogi mynediad at wybodaeth y gall pobl ei defnyddio i wella eu hiechyd corfforol (e.e. bwyta'n iach, ymarfer corff lefel isel)
- Cyfeirio a hwyluso mynediad at chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn y gymuned

## Canlyniad Eilaidd 6

### Mae pobl yn rheoli effaith eu dibyniaeth

*Bydd cynnwys y canlyniad hwn yn dibynnu ar anghenion a chynllun cymorth yr unigolyn ei hun.*

**Dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth** ***(Os yw'n berthnasol - I gofnodi ymateb yn erbyn gan ddefnyddio'r disgrifiadau graddfa yn Adran 3)***

- Rwy'n teimlo y gallaf reoli fy nibyniaeth / fy nefnydd
- Rwy'n lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â'm dibyniaeth / defnydd
- Rwy'n gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnaf i'm helpu i reoli fy nibyniaeth / fy nefnydd

**Noder:** Gallai'r rhain ymwneud â defnyddio sylweddau / dibyniaeth ar sylweddau neu ddibyniaeth ymddygiadol

**Mathau o ymyriadau/gweithgareddau/gwasanaethau**

- Cyfeirio a hwyluso mynediad at gymorth arbenigol i ddelio â phroblemau dibyniaeth
- Darparu cymorth anarbenigol ac anfeirniadol parhaus i ddelio â defnyddio sylweddau / dibyniaeth ar sylweddau neu ddibyniaeth ymddygiadol
- Cefnogi pobl o ran lleihau niwed e.e. cyfnewid nodwyddau

## Canlyniad Eilaidd 7

**Mae iechyd meddwl a lles pobl yn dda**

*Bydd cynnwys y canlyniad hwn yn dibynnu ar anghenion a chynllun cymorth yr unigolyn ei hun.*

**Dangosyddion defnyddwyr gwasanaeth *(Os yw’n berthnasol - I gofnodi ymateb yn erbyn gan ddefnyddio’r disgrifiadau graddfa yn Adran 3)***

- Rwy'n teimlo bod fy iechyd meddwl, fy iechyd a / neu fy lles yn dda
- Rwy’n gallu cael mynediad at y gwasanaethau iechyd meddwl y mae eu hangen arnaf
- Rwyf wrthi'n ceisio rheoli neu wella fy iechyd meddwl
- Rwy'n teimlo'n optimistaidd am y dyfodol
- Rwy'n teimlo'n wydn ac yn gallu ymdopi â phryderon, straen ac ansicrwydd o ddydd i ddydd

**Mathau o ymyriadau/gweithgareddau/gwasanaethau**

- Cyfeirio a hwyluso mynediad at gymorth emosiynol sy'n hybu gwydnwch a lles i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gwasanaeth cymorth sy'n gysylltiedig â thai
- Cyfeirio a hwyluso mynediad at gymorth iechyd meddwl arbenigol
- Darparu cymorth a gwrando mewn ffordd sy’n anfeirniadol ac sy'n seiliedig ar wybodaeth seicolegol